Annwyl Bawb

E-FWLETIN 34 – 22 HYDREF 2009

Mae'n Wythnos Un Byd wythnos hon, sef wythnos i dynnu sylw at faterion Un Byd. Thema WUB 2010 yw *"Newynog am Un Byd"* a'r nod yw edrych ar sut gallwn gyfrannu at leddfu'r gwahanol fathau o 'newyn' neu angen sydd yn y byd – angen am fwyd, llety, hapusrwydd, cael eich derbyn, parch, lles, heddwch a chyfiawnder, cynaladwyedd, gobaith i'r dyfodol ... Cafwyd digwyddiad yma nos Lun i ddathlu WUB ac i drafod ffyrdd o adnabod ac ymdrin â rhai o'r anghenion hyn yn ein cymunedau lleol a'r gymuned fyd-eang. Diolch i bawb a ddaeth i gymryd rhan.

Wythnos Un Byd oedd thema cyfarfod wythnos hon o Grŵp Gweddi a Choffi fore Mawrth hefyd, ac mae gan Hafal – mudiad sy'n gweithio dros bobl salwch â salwch meddwl (ac sy'n ceisio bodloni eu hangen i gael eu derbyn a'u parchu) – arddangosfa o rai o'r pethau â gynhyrchwyd gan eu clybiau cymdeithasol. Mae'r arddangosfa hon yma tan 20 Tachwedd.

Nodir isod y digwyddiadau eraill sy'n cymryd lle yn y Morlan dros yr wythnosau nesaf.

FORESTS FOREVER
6.00, nos Sadwrn, 24 Hydref
Ar Ddiwrnod Rhyngwladol dros Newid Hinsawdd, cyfle i weld ffilm fer am effaith busnesau amaeth yr Unol Daleithiau ar fforestydd glaw'r byd, ac i feddwl a thrafod ffyrdd o ddiogelu'r trysorau hyn sydd mor hanfodol i'n bywyd ar y blaned hon. Bydd hefyd perfformiadau gan y storïwr Nicola Hart a'r cerddor Ailsa Mair Hughes, gyda chyfle i berfformwyr eraill rannu eu creadigaethau amgylcheddol. Cysyllter â Nicola Hart (07914-829171; mmeharties@yahoo.co.uk) os am gymryd rhan, neu am wybodaeth bellach. Mynediad am ddim – elw i'r Rainforest Action Network.

FFORWM 50+ ABERYSTWYTH
2.00-4.00, dydd Mercher, 28 Hydref
Cyfarfod misol i drafod materion sy'n berthnasol i bobl hŷn.

PACT (PARTNERIAID A CHYMUNEDAU YN CYDWEITHIO)
7.00, nos Fercher, 28 Hydref
Gwahoddiad gan y Tîm Plismona Bro i aelodau'r gymuned leol ddod i drafod eu syniadau ar gyfer eu cymuned.

SESIYNAU GALW I MEWN AR GYFER DARPAR WIRFODDOLWYR
10.00-4.00, dydd Iau, 29 Hydref
CAVO sy'n trefnu'r sesiynau hyn ar gyfer pobl sy'n chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli neu fudiadau sy'n defnyddio gwirfoddolwyr ac angen help recriwtio gwirfoddolwyr. Byddant yn cael eu cynnal yma ddwywaith y mis tan ddiwedd y flwyddyn.

QUIDZ IN
9.30-11.30, bore Iau, 5 Tachwedd
Y cyntaf o gwrs 10-wythnos di-dâl sy'n rhoi cymorth ymarferol i rieni magu plant sy'n hyderus yn ariannol. Noddir y cwrs gan Cantref, Cymunedau'n Gyntaf a Credit Action Cymru, a bydd yn cael ei gynnal yma bob bore Iau nes 10 Rhagfyr. Manylion pellach: 0800-242-5844

YR ARGLWYDD DAFYDD ELIS-THOMAS YN ANNERCH AR Y THEMA *"LLYTHRENNEDD DEUOL CELF A GAIR"*
7.00, nos Iau, 5 Tachwedd
Noson wedi'i threfnu gan Bwyllgor Rhaglen Morlan yw hon. Cadeirir y noson gan Harry James bydd hefyd gyfle i holi cwestiynau a thrafod materion megis rôl a phwysigrwydd celf (a barddoniaeth) yng Nghymru heddiw. Mynediad: £3 (plant ysgol a myfyrwyr am ddim).

Cofion gorau
Carol Jenkins
Rheolwr